Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 17: 10855

[redacted]

At sylw: Mrs Ustus Jefford DBE 14.11.22
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod,
Tŷ Hastings,
Llys Fitzalan,
Caerdydd,
CF24 0BL

YNGHYLCH: AROLWG 2023 – Cwm Cynon

Annwyl Madam

Rwy'n bryderus iawn ynghylch canlyniadau'r newidiadau i'r ffiniau, a theimlaf fod angen i mi ysgrifennu atoch yn bersonol.

Fel un o breswylwyr Aberdâr sydd â chysylltiadau hynafiadol a theuluol cryf ag Aberpennar a Phenrhiwceibr a chysylltiadau busnes blaenorol ag Abercynon, rwy'n dal wedi fy syfrdanu eich bod wedi'ch rhoi yn y sefyllfa o weithredu Deddf Seneddol 2020 sy'n gorchymyn y dylid cydraddoli pob etholaeth seneddol o ran maint yn seiliedig ar Gofrestr Etholiadol 2020.

Mae'r dasg chwerthinllyd hon wedi arwain at newidiadau sydd nid yn unig yn dileu wyth Aelod Seneddol sy'n cynrychioli Cymru (gostyngiad o 40 i 32) ond hefyd, o ran Cwm Cynon, yn mynd yn groes i holl feini prawf y Comisiynwyr, sef:-

- *ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, ac ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion a'i argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol.*

- *ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020*

- *unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau*

- *yr anghyfleustra sy’n gysylltiedig â newidiadau o’r fath*
  yn ogystal â newid enwau'n ddiangen (ceir naw newid ledled Cymru). Mae effaith yr olaf yn dangos diffyg dealltwriaeth ariannol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â chymaint o newidiadau.

Yn eich arolwg, rydych yn nodi mai dyma’r newidiadau “mwyaf arwyddocaol mewn canrif”, felly mae’r Ddeddf rydych yn ei gweithredu yn gwrthdaro â’r hyn sydd wedi gweithio’n llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn y cyfnod hwnnw, ffurfiwyd Cwm Cynon oherwydd natur ddaearyddol Afon Cynon sy'n ymuno yn y pen draw ag Afon Taf i'r de o Abercynon.

**Hanesyddol:-** Mae'n drueni, gan fod Aberpennar yn wreiddiol yn un o dri phlwyf hanesyddol ym Morgannwg ynghyd ag Aberdâr a Phenderyn, y bydd y diwylliant a’r cysylltiadau cymunedol rhwng y trefi a’r ardaloedd hyn bellach yn cael eu chwalu. Ym 1918, dechreuodd y boblogaeth gynyddu a chrewyd sedd seneddol Merthyr ac Aberdâr (a ddiddymwyd ym 1950), ac ym 1974 ffurfiwyd Cyngor Bwrdeistref diwydiannol a diwylliannol bywiog ar gyfer Aberpennar ac Aberdâr, ac wedyn ym 1983 ffurfiwyd etholaeth seneddol Cwm Cynon a alluogodd preswylwyr i adnabod y gymuned y buont ynddi ers dros 104 o flynyddoedd. Erbyn hyn, mae'r cwm, sy'n seiliedig ar nodweddion daearyddol yn rhedeg o'r gogledd i dde, wedi tyfu fel cymuned glos, gynaliadwy â'r un hunaniaeth, hyd yn oed ar ôl ad-drefnu'r awdurdodau lleol yn 2010. Os oedd ffin o'r gogledd i'r de yn dderbyniol ar ôl 1950, mae'n rhaid codi'r cwestiwn pam mae hyn wedi'i anwybyddu ar ôl 72 mlynedd.

Mae’r hunaniaeth gref yn parhau â chysylltiadau eraill megis agor ysbyty Cwm Cynon a ddisodlodd ysbytai Aberpennar ac Aberdâr yn 2012. Mae gan Lofa’r Tŵr hanes eiconig, a bydd bob amser yn cael ei hadnabod fel rhan o Gwm Cynon, ac felly'n wir y diwydiant haearn hanesyddol.

**Diwylliannol**:- Ceir nifer o wyddonwyr, athrawon, artistiaid, actorion, awduron a cherddorion sydd wedi uniaethu ac yn parhau i uniaethu â Chwm Cynon. Mae cysylltiadau diwylliannol yn parhau trwy Eisteddfodau Aberdâr ac Aberpennar, Caradog, Nos Galan, Amgueddfa Cwm Cynon sy'n dathlu hanes cyfoethog Cwm Cynon gan gynnwys y cysylltiad pwysig â Richard Trevithick a'i beiriant ager, Colisëwm Aberdâr, Parc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Aberdâr, ynghyd â chorau enwog dros ganrifoedd. Gallai'r canolfannau hamdden a'r gweithgareddau chwaraeon sy'n gwasanaethu'r cwm cyfan fod mewn perygl oherwydd y cynghreiriau a'r cystadlaethau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae dileu hunaniaeth yr uchod wrth eu gosod dan yr enw Merthyr neu Bontypridd yn gyfystyr â thanseilio diwylliannol.

**Addysg:-** Ceir cysylltiadau cryf rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd o dan CBSRhCT a bydd unrhyw amhariad ar eu hunaniaeth a'u coalisiynau yn andwyol dros ben i bobl ifanc y cwm. Bydd y newidiadau i'r ffiniau yn achosi anhrefn i lywodraethwyr, athrawon a rhieni wrth iddynt ymdopi â'r agweddau gwahanol ar lywodraethu o dan yr awdurdod lleol a senedd y DU.

**Seilwaith:-** Mae ffordd yr A4059 yn cysylltu'r dyffryn cyfan trwy Aberpennar i Aberdâr ac ymlaen i ogledd y cwm ac mae'n aliniad naturiol i'r mynyddoedd a chyrsiau'r afonydd.

Er y bu cynnydd sylweddol mewn perchenogaeth ceir, yn bennaf i gael mynediad i waith, mae mwyafrif o hyd sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**De Cynon, teithio i Bontypridd:** Mae tocyn bws unffordd yn costio £6.80 ar gyfer 2 berson

Mae tocyn trên yn costio isafswm o £3.40 am docyn unffordd neu £6.80 am docyn dwyffordd

**Gogledd Cynon, teithio i Ferthyr:** Disgwylir i'r gwaith o uwchraddio parthau 2 a 3 ffordd yr A469 (Blaenau'r Cymoedd) gael ei gwblhau erbyn 2025, ond gan fod y cynlluniau presennol ar ei hôl hi, mae'n fwy tebygol o gael ei gwblhau yn 2026-7. Erbyn hyn, mae problemau teithio yn eu 17eg wythnos o amgylch Hirwaun a'r ardaloedd cyfagos, ac mae teithio mewn car a bws yn anhrefn ac nid yw'n debygol o wella mynediad i aelodau'r blaid a phreswylwyr gyrraedd Merthyr Tudful. Nid oes seilwaith rheilffordd o Aberdâr i Ferthyr.

Mae tocyn bws o Aberaman/Cwmaman i Aberdâr yn costio £2.00 i £4.00.
Mae tocyn bws o Aberdâr i Ferthyr Tudful yn costio £4.00 i £7.00
Mae tocyn trên o Aberdâr i Ferthyr Tudful gan deithio trwy Abercynon yn costio £14 i £20

**Ystadegau:-** Roedd gan Gwm Cynon boblogaeth o 69,000 yn 2010, ond poblogaeth etholiadol o 51,152 yn unig yn 2020, ac nid yw hyn yn gadael unrhyw hyblygrwydd os bydd hen breswylwyr neu breswylwyr newydd yn penderfynu cofrestru, neu bobl 18 oed sy'n cyrraedd oedran pleidleisio cyn yr etholiad nesaf.

Ceir diweithdra uchel ymhlith preswylwyr (anweithgar) ac mae'r 22% hwn yn gosod y cwm ymhlith y 10% o'r ardaloedd o amddifadedd mwyaf difrifol yng Nghymru, ac ar y cyfan, ceir mwy o amddifadedd ym mwyafrif yr ardaloedd yn y cwm na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae un rhan o ogledd Cynon yn ardal o'r fath, a bydd ei hychwanegu at ardal Merthyr, sy'n

dlotach fyth, yn gwneud yr etholaeth newydd yn drychineb economaidd.

Ar ôl pob ymdrech i ymgysylltu â’r cyfryngau ynghylch tranc Cwm Cynon, mae'r crybwylliadau prin gan y wasg wedi methu â nodi bod yw’r hyn sy’n cael ei orfodi yng Nghwm Cynon yr un mor bwysig â rhannu Dinas Caer yn Lloegr. Pan fydd mwyafrif y cyhoedd yn darganfod, ymhen hir a hwyr, beth fydd yn digwydd, daw adlach, yn enwedig ynghylch y cysylltiad â Merthyr Tudful.

Byddaf yn parhau’n obeithiol y bydd Etholiad Cyffredinol yn cael ei alw cyn 1 Gorffennaf 2023 ac y bydd Llywodraeth newydd, synhwyrol, yn llunio Deddf ar gyfer ad-drefnu etholaethau a fydd yn cadw hunaniaeth Cwm Cynon yn union fel y mae’r comisiwn presennol wedi cadw hunaniaeth y cymoedd eraill â ffiniau daearyddol o’r gogledd i’r de.

I gloi, gan na fydd eich adroddiad terfynol ar gyfer 1 Gorffennaf 2023 yn cael ei gyflwyno ar gyfer pleidlais seneddol ddemocrataidd, rwy’n gofyn i Gomisiynwyr Cymru ailystyried y newid radical i Gwm Cynon a throi’n ôl at yr hyn sydd wedi gweithio’n sylweddol ers dros ganrif.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023